# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 10 Mawrth 2015** |
| Amser: | **08.30 – 08.50** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: Preifat

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Paul Davies**<br>**Jane Hutt**<br>**Elin Jones**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Aled Elwyn Jones (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau**<br>**Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1 Ymddiheuriadau a cyhoeddiadau

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

3.1 Busnes yr wythnos hon

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth am y newidiadau i Fusnes y Llywodraeth ddydd Mawrth.

Nododd y Rheolwyr Busnes y byddai'r pleidleisiau ar bob eitem o fusnes ac eithrio'r ddadl Cyfnod 3 yn cael eu cynnal cyn cychwyn trafodion Cyfnod 3 ddydd Mawrth, ac y byddai pob pleidlais mewn perthynas â'r Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn cael ei chynnal yn ystod trafodion Cyfnod 3.

Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Rheolwyr Busnes ei bod yn bwriadu atal y trafodion er mwyn cael egwyl o ddeg munud cyn i drafodion Cyfnod 3 ddechrau.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r Cyfnod Pleidleisio ddydd Mercher yn cael ei gynnal cyn y Ddadl Fer.

3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

3.3 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu'r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 22 Ebrill 2015**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)

3.4 Dadl Aelod Unigol: dewis cynnig ar gyfer y ddadl

Dewisodd y Pwyllgor Busnes ddau gynnig ar gyfer y ddadl.

**Dydd Mercher 18 Mawrth 2015**

**NNDM5712**

**Mick Antoniw (Pontypridd)**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
**Aled Roberts (Gogledd Cymru)**
**Nick Ramsay (Mynwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn:

1. Cydnabod bod technoleg ar-lein, ynghyd ag hysbysebu dwys, wedi hybu twf gamblo yng Nghymru ac yn nodi:

a) bod gamblo ar gael i'r boblogaeth Cymru gyfan bob awr o'r dydd;

b) gall pobl fynd yn gaeth i gamblo gan greu niwed cymdeithasol a chyfrannu at dlodi, problemau iechyd a phroblemau cymdeithasol;

c) mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r broblem a chynnig cymorth yn gynnar rhag i bobl fynd yn gaeth i gamblo;

ch) mae'r twf mewn gamblo ar-lein a pheiriannu betio sy'n cynnig ods sefydlog wedi troi gamblo yn y DU yn ddiwydiant sy'n werth biliynau;

d) mae'r amgylchedd rheoleiddio ym maes gamblo'n gymharol lac.

2. Galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) datblygu a gweithredu strategaeth i fynd i'r afael ag effaith gymdeithasol gamblo a'i effaith ar iechyd;

b) ymgysylltu â Llywodraeth y DU i drafod datganoli rhagor o bwerau dros drwyddedu peiriannau gamblo; ac

c) ymgysylltu â'r diwydiant gamblo a'r Ymddiriedolaeth Gamblo Cyfrifol i sicrhau bod cyfran o'r arian yn cael ei wario yng Nghymru i fynd i'r afael â phroblemau'n ymwneud â gamblo.

**Dyddiad i'w drefnu**

**NNDM5713**

**Aled Roberts (Gogledd Cymru)**
**Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**
**Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn:

1. Nodi cyfraniad economaidd y diwydiant dur yng Nghymru a'r miloedd o swyddi sydd ynghlwm wrtho.

2. Gresynu at y ffaith bod cymaint o ddur yn cael ei fewnforio ac yn boddi'r farchnad gan greu cystadleuaeth annheg.

3. Galw ar Lywodraeth Cymru i fabwysiadu'r Siarter ar gyfer Dur Cynaliadwy Prydain, a fydd yn sicrhau bod yr holl farrau dur carbon y mae'r Llywodraeth yn eu caffael yn bodloni safon BES 6001 yn ymwneud â chaffael o ffynonellau cyfrifol.

Mae'r Siarter ar gyfer Dur Cynaliadwy Prydain i'w gweld yma: http://www2.eef.org.uk/NR/rdonlyres/04940D4A-E15E-43A5-8C41-51CD7EE4E13F/24323/TheCharterforBritishSustainableSteel1.pdf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal dadl Aelod Unigol ar gyfer yr hanner tymor nesaf ddydd Mercher 13 Mai 2015.

## 4 Deddfwriaeth

4.1 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) yn ymwneud â'r Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth.

Dywedodd y Gweinidog Busnes wrth y Pwyllgor fod y Bil wedi cyrraedd y camau olaf ar ei daith drwy'r Senedd. Oherwydd prinder amser, cytunodd y Rheolwyr Busnes i nodi'r Memorandwm, ac i beidio â'i gyfeirio at un o bwyllgorau'r Cynulliad at ddibenion

craffu.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac anfon copi at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i ddweud wrthynt fod y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod ond nad oedd wedi'i gyfeirio at bwyllgor craffu.

Nododd y Rheolwyr Busnes y bwriedir cynnal dadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Mawrth 2015.

## 5 Rheolau Sefydlog

5.1 Cynigion i newid y Rheolau Sefydlog yn ymwneud â Chofrestru a Datgan Buddiannau'r Aelodau ac Aelodaeth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan yr Ysgrifenyddiaeth yn ymwneud â newid y Rheolau Sefydlog yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn ei adroddiad ar Gofrestru a Datgan Buddiannau'r Aelodau a newid y rheolau'n ymwneud ag aelodaeth y Pwyllgor.

Cytunodd y Rheolwr Busnes, o ran egwyddor, i'r newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog ac i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i ymgynghori â'r Pwyllgor ynghylch y newidiadau arfaethedig.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i drafod y mater ymhellach mewn cyfarfod arall, ar ôl i'r Pwyllgor ymateb.

## 6 Amserlen y Cynulliad

6.1 Dyddiadau toriad 2015-16

Trafododd y Rheolwyr Busnes ddyddiadau dros dro'r toriadau hyd at ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad. O gofio y bydd Pasg 2016 yn agos iawn at y dyddiad y diddymir y Cynulliad, trafododd y Pwyllgor y gwahanol bosibiliadau o ran y toriad hwnnw.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i aros nes daw rhagor o wybodaeth i law gan y Gweinidog am raglen ddeddfu'r Llywodraeth cyn ymgynghori â'u grwpiau ynghylch dyddiad y toriad.